

Mae Coleg Cambria yn ymwybodol fod dyletswydd arno, yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, i gydnabod a lleihau ei brif effeithiau amgylcheddol. Yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, bydd y Coleg yn gweithio'n weithredol i ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd yn ogystal â hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae Coleg Cambria yn ymroddedig i greu dyfodol cynaliadwy a bydd yn mabwysiadu dull gweithredol tuag at ddiogelwch a chadwraeth yr amgylchedd. Bydd y Coleg yn gweithredu mesurau i hybu cynaliadwyedd a cheisio gwella ar y mesurau hynny lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Coleg yn cydnabod ei gyfrifoldebau'n ymwneud â chyfrifoldeb cymdeithasol a chorfforaethol a bydd yn cydweithio â staff, dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Mae'n bolisi gennym i:-

1. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol cyfredol a mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau a fydd yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.
2. Sicrhau datblygiad a chynhaliadaeth systemau a gweithdrefnau rheoli effeithiol sy'n atal llygredd a cheisio gwelliannau parhaus gyda'r nod o leihau effaith carbon y Coleg ar yr amgylchedd.
3. Defnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol ac yn y dull gorau a chadw'r defnydd hynny mor isel â phosibl, gan weithredu mesurau i sicrhau defnydd effeithiol o ynni a dŵr.
4. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ystyried ynni o ffynonellau adnewyddol ac aildefnyddio dŵr a chynaeafu. Lle bo'n ddichonadwy, cyflwyno technolegau o'r fath.
5. Hyrwyddo lleihau gwastraff ac aildefnyddio deunyddiau wrth ddarparu systemau ailgylchu a bod yn weithredol wrth annog eu defnydd.
6. Ystyried defnyddio safonau BREEAM mewn adeiladau newydd a phrosiectau adnewyddu. Lle bo'n ddichonadwy, gweithredu'r safonau hynny.
7. Gweithredu mesurau sy'n cofnodi gwybodaeth a data yn gywir gyda'r nod o fonitro perfformiad cynaliadwyedd y Coleg. Llunio systemau i ddadansoddi'r wybodaeth a'r data i nodi'r meysydd i wella.
8. Cefnogi polisi caffael sy'n ymroddedig i wella dyfodol cynaliadwy a'i hysbysebu i annog eraill i fabwysiadu dulliau tebyg.
9. Sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi a bod dysgwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol a darparu cymorth i eraill gyda'r nod o gael hyfforddiant amgylcheddol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r angen am ddyfodol cynaliadwy.
10. Cyfuno'r cysyniad o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ym meysydd Cwricwlwm a Busnes y Coleg a gweithio tuag at ddatblygu cymdeithas lwyddiannus gynaliadwy.
11. Cefnogi rhaglenni cymunedol a mentrau amgylcheddol sy'n galluogi arddangos a hyrwyddo arferion gorau.
12. Monitro cynnydd trwy gyfarfodydd rheolaidd y tîm rheoli i nodi meysydd i'w gwella, gosod targedau mesuradwy ac adrodd yn agored/cyhoeddus yn flynyddol ar y cynnydd a wneir mewn cyflawni'r targedau hynny.

Er mwyn gweithredu'r polisi hwn, mae Coleg Cambria wedi dyrannu cyfrifoldebau ac adnoddau fel bo'n briodol. Bydd yn cysylltu â'r staff, yr undebau, yr awdurdodau a phartïon eraill â diddordeb ynghylch materion yn ymwneud â chynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Ystyria'r Gorfforaeth fod y nodau hyn o'r pwysigrwydd pennaf.